| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Iaith** |
| **DYDDIAD** | **10 Hydref 2022** |
| **TEITL** | **Trosolwg o’r Prosiect Dynodiadau Iaith** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno crynodeb o waith y prosiect hyd yma a’r camau nesaf.** |
| **AWDUR** | **Llio Mai Dafydd** |

## 1 Pwrpas

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi cefndir y prosiect Dynodiadau Iaith a chrynodeb o’r gwaith sydd wedi digwydd hyd yma. Yn ogystal, bydd gwybodaeth am y gwaith sydd ar y gweill a’r camau nesaf. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod holl aelodau’r Pwyllgor Iaith yn ymwybodol o waith y prosiect.

## 2 Cefndir

2.1 Yn 2015 penderfynodd y Pwyllgor Iaith edrych ar y drefn o gofnodi sgiliau iaith staff, mewn paratoad ar gyfer dyfodiad y Safonau Iaith yn 2016 ac mewn ymdrech i gael gwell dealltwriaeth o union lefel sgiliau staff, yn hytrach na dim ond gallu neu beidio i siarad Cymraeg.

2.2 Ym mis Ionawr 2016 gwnaethpwyd penderfyniad bod angen yn gyntaf adolygu gofynion ac amodau iaith swyddi’r Cyngor er mwyn gosod gofynion realistig ochr-yn-ochr â dyletswyddau’r swydd. Er enghraifft:

- **Athro/Athrawes**: Cadwyd y gofynion ar y lefel uchaf oherwydd natur y swydd.
- **Cymhorthydd Hamdden**: Cadwyd y gofynion siarad a gwrando yn uchel er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd sgiliau llafar yn y swydd ond gostyngwyd y gofynion ysgrifennu gan nad oes angen i gymhorthydd hamdden ysgrifennu adroddiadau, cofnodion ac ati.

2.3 Yn 2017 dechreuwyd ail ran y prosiect, sef cofnodi sgiliau iaith staff a sicrhau bod cefnogaeth ar gael i aelodau cyfredol o staff naill ai gadw safon eu sgiliau Cymraeg neu gyrraedd gofynion iaith eu swydd os oedd bwlch yn bodoli.

2.4 Dechreuwyd trwy redeg peilot gydag adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn niwedd 2017. Roedd hyn yn rhannol oherwydd anghenion yr Adran, a hefyd oherwydd eu hawydd i gydweithio. Un o’r gwersi pwysicaf a ddysgwyd o’r peilot yw pwysigrwydd cyfarfod Penaethiaid a Rheolwyr, a’u cynnwys yn y broses o’r dechrau un. Yn ogystal â hynny, roedd bod yr adran a’r rheolwyr yn cymryd perchnogaeth o’r gwaith yn hanfodol bwysig i lwyddiant y prosiect.

2.5 Sefydlwyd Bwrdd Prosiect i gadw golwg ar y gwaith. Gan fod y prosiect yn galw am edrych ar swyddi (asesu anghenion a’r broses recriwtio), pobl (penodi ac asesu sgiliau) a hyfforddiant, penderfynwyd y byddai’r Bwrdd Prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol wasanaethau a fyddai’n cyfrannu at yr elfennau hyn, e.e. y gwasanaeth Adnoddau Dynol a’r gwasanaeth Cefnogol.

## 3 Trosolwg o waith y prosiect

3.1 O ddiwedd 2018 ymlaen, dechreuwyd ar weithredu'r prosiect gyda phrif adrannau eraill y Cyngor. Gwnaed hyn trwy gysylltu gyda Phenaethiaid a Rheolwyr.

3.2 Yn ogystal â phrif adrannau'r Cyngor, mae gwaith hefyd wedi'i wneud i gasglu asesiadau iaith ac i ddatblygu sgiliau iaith staff Byw'n Iach. Er nad oes ymdrech penodol wedi'i wneud i weithredu'r prosiect gyda'r sefydliadau sy'n cael eu lletya gan Gyngor Gwynedd, e.e. Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a GwE, mae modd iddynt hwythau gwblhau'r holiadur hunanasesu iaith, ac mae cefnogaeth ar gael iddynt ar gais. Mae gwaith hefyd wedi digwydd i gasglu asesiadau iaith gan staff Ysgolion, fydd yn derbyn sylw pellach yn sgil Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg.

3.3. Er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff, datblygwyd yr holiadur hunanasesu iaith a dechreuwyd ei ddefnyddio o 2019 ymlaen. Mae'r holiadur yn gofyn i unigolyn sgorio ei allu i wneud amrywiaeth o dasgau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn seiliedig ar yr atebion, mae'r holiadur yn darparu lefel iaith ar y diwedd. Mae hefyd yn gyfle i staff nodi eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, i nodi a oes unrhyw beth y gall y Cyngor ei wneud i'w cynorthwyo i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith, ac yn rhoi'r cyfle iddynt nodi unrhyw angen am hyfforddiant.

Mae'r holiadur wedi'i leoli ar system Hunanwasanaeth y Cyngor, ac mae fersiwn ar safle allanol ar gael i'r rhai sydd heb fynediad at y system Hunanwasanaeth.

Cydnabyddir ei bod yn her sicrhau bod rhai carfannau o staff rheng flaen yn cwblhau'r holiadur hunanasesu iaith. Er mwyn cael syniad o'u sgiliau iaith, gofynnir i reolwyr nodi a yw'r aelodau o staff yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd ai peidio.

3.4 Mae pob math o gefnogaeth, gan gynnwys cyrsiau gloywi mewnol, cyrsiau dysgu allanol, cyrsiau dwys, cyrsiau ar-lein ac apiau a gwefannau, yn cael ei gynnig yn barhaus i staff wella neu gynnal eu sgiliau Cymraeg.

3.5 Er mwyn cynnig ôl-ofal i dderbynwyr hyfforddiant, a chefnogi siaradwyr dihyder neu sydd eisiau gwella'u Cymraeg trwy ddull gwahanol i ystafell ddosbarth, sefydlwyd y **Cynllun Cyfeillion Cymraeg** ym mis Mawrth 2019. Mae'r Cynllun hwn yn paru aelod o staff hyderus eu Cymraeg gydag aelod o staff sydd eisiau datblygu eu sgiliau iaith.

3.6 Ynghyd â staff o'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, datblygwyd system er mwyn cadw'r wybodaeth am sgiliau iaith staff. Mae'r system hon yn rhoi'r gallu i greu adroddiadau amrywiol e.e. Adroddiad o unigolion sydd heb asesiad iaith, adroddiad ar gyfer un gwasanaeth yn unig.

3.7 Sefydlwyd proses i sicrhau bod adrannau'n derbyn gwybodaeth gyson am lefelau iaith eu staff, y nifer sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi a'r nifer sydd wedi neu yn mynychu hyfforddiant iaith. Mae Penaethiaid bellach yn derbyn adroddiad pob 3 neu 6 mis.

Bydd hyn hefyd yn fodd o sicrhau parhad y gwaith ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

3.8 Datblygwyd y Safle Iaith fewnol fel man canolog i rannu gwybodaeth am hyfforddiant iaith, am adnoddau defnyddiol ac am y prosiect ei hun, gan gynnwys cwestiynau cyffredin a gwybodaeth ddefnyddiol i reolwyr.

3.9 Sefydlwyd Fforwm Dynodiadau Iaith sy'n cynnwys cynrychiolydd o bob un o brif adrannau'r Cyngor. Mae'r Fforwm yn cyfarfod pob 3 mis ac yn cynnig y cyfle i drafod unrhyw heriau sydd wedi codi o ran y Gymraeg, i rannu arfer dda ac i rannu gwybodaeth am gyfleoedd newydd i ddatblygu sgiliau iaith.

3.10 Dyma nodi data diweddaraf y prosiect ar gyfer prif adrannau'r Cyngor (*yn gywir ar 23 Medi 2022 ac yn eithrio Ysgolion*):

Cyfanswm staff prif adrannau'r Cyngor: **3,936**
Nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith: **2,717 (69%)**
Nifer y staff sydd wedi derbyn rhyw fath o asesiad iaith: **2,945 (75%)**
Nifer y staff sydd ar ôl heb asesiad iaith: **991 (25%)**
Nifer y staff sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi: **2,687 (91%)**
Nifer y staff sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi: **258 (9%)**
Nifer y staff sy'n uwch na dynodiadau iaith eu swyddi: **1,969 (72%)**

Ers dechrau'r prosiect yn 2017 mae dros **200** o aelodau o staff wedi mynychu hyfforddiant iaith, naill ai i ddysgu Cymraeg neu i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

O'r 258 sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi, mae **47** wedi derbyn hyfforddiant iaith hyd yma.

## 4 Camau nesaf

4.1 Yn ystod cyfarfod Monitro Perfformiad yr adran Cefnogaeth Gorfforaethol fis Mehefin 2022, penderfynwyd fod y prosiect ffurfiol yn dod i'w derfyn a'i fod yn trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd, ond nid yw hynny'n golygu y bydd y gwaith o asesu a chefnogi yn dod i ben.

4.2 Bydd y drefn o gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff yn parhau, serch hynny, yn ogystal â'r gwaith o gynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith staff.

4.3 Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda Phenaethiaid er mwyn cau'r prosiect yn swyddogol, i'w diweddaru ynghylch y datblygiadau diweddaraf a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff.

4.4 Gan fod y drefn asesu wedi ei sefydlu, bydd y ffocws nawr yn symud i edrych ar y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu. Bydd angen blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen i gysylltu â nhw ynghylch hyfforddiant iaith a bydd sylw penodol yn cael ei roi i'r aelodau o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi ar hyn o bryd.

Gall hyn olygu comisiynu cyrsiau penodol i aelodau o staff y Cyngor.

4.5 Bydd cydweithio gyda'r adran Addysg er mwyn casglu asesiadau iaith gan staff Ysgolion fel rhan o waith Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg, sy'n weithredol o Fedi 2022.

4.6 Bydd angen sicrhau bod trefniadau monitro digonol yn eu lle, a bod yr adrannau unigol yn deall eu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau parhad y prosiect.

Bydd y Fforwm Dynodiadau Iaith yn parhau i gyfarfod er mwyn sicrhau hyn a bwriedir edrych ar ffyrdd ychwanegol o gefnogi timau i gynnal y Gymraeg fel iaith weithredol ac i gymathu dysgwyr.

## 5 Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor Iaith

5.1 Croesewir sylwadau neu gwestiynau gan y Pwyllgor Iaith ar waith y prosiect yn ogystal ag argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer y camau nesaf.